# PWYLLGOR APELAU

Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts and S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy - Uwch-gyfreithiwr
J. Stuart - Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 11.30 am - 4.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

## 3. NAD YDYW I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

## 4. YSTYRIED APÊL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch yr unigolyn.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl clorianniu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Aeth y Pwyllgor felly ymlaen i gael y dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio.

Nodwyd bod cynrychiolydd undeb llafur yr apelydd yn bwriadu galw ar dyst, a oedd wedi rhoi tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad. Cytunodd y Panel ohirio'r cyfarfod am gyfnod er mwyn aros i'r tyst gyrraedd. Gohiriwyd y cyfarfod am 11.50am. (Noder: Gadawodd y Cynghorydd J.P. Jenkins y cyfarfod yn y man hwn).

Ailymgynullodd y Panel am 12.05pm. Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan yr apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi, ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 6 Hydref, 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2016, yn cael ei gadarnhau;**

**4.2. bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**

(Noder: Gadawodd y Cyng. S.M. Allen y cyfarfod yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor)

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**